

# Ymgynghoriad ar Newid Polisi Cludiant i ddisgyblion ysgolion Sir Rhondda Cynon Taf

Gorffennaf 2015

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

# Ymgynghoriad ar Newid Polisi Cludiant i ddisgyblion ysgolion Sir Rhondda Cynon Taf

## Cynnig yr Ymgynghoriad

Y cynnig yw cynnal y lefel bresennol o gludiant ond i gyflwyno tâl ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n elwa o elfennau dewisol y ddarpariaeth. Wrth ddilyn y cynnig yma, byddai'r tâl yn £1.75 y diwrnod. Mae'r swm yma wedi cael ei bennu gan gymryd i ystyriaeth:-

- Cost y gwasanaeth cludiant cyhoeddus cyfatebol
- Cost cludo disgyblion mewn car
- Y ddarpariaeth barhaus o gymhorthdal i ddarparu'r gwasanaeth

Y cynnig yw y byddai'r disgyblion hynny sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn talu llai (£1.00 y diwrnod).

Hefyd, byddai teuluoedd sydd â mwy na 2 o blant (ac sy'n gorfod talu'r tâl arfaethedig) dim ond yn talu am 2 o'r plant.

Byddai'r polisi newydd arfaethedig yn cael ei weithredu o ddechrau blwyddyn academaidd 2016/17 (hynny yw, o fis Medi 2016) Byddai'r opsiwn arfaethedig sy'n cael ei ffafrio yn sicrhau arbedion blwyddyn lawn (creu incwm) i'r Cyngor o £2.048 miliwn (£1.280 miliwn yn 2016/17 - effaith rhan o'r flwyddyn).

Croesawa UCAC y cyfle i ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol RhCT. Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli 250 o addysgwyr yn y sir.

## 1. Asesiad

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i asesu anghenion teithio dysgwyr. Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, cymal 2(2) yn rhoi cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Lleol i: "...asesu anghenion teithio dysgwyr ei ardal ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol."

Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i ddysgwyr:

- hyd at 19 mlwydd oed, a dysgwyr 19 oed a throsodd os ydynt eisoes wedi cychwyn ar gwrs addysg neu hyfforddiant cyn cyrraedd yr oedran hwnnw (cymal 2(1))
- sy'n "preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod" (cymal 2(3))

Gofynnwn am weld copi o'r asesiad hwn.

## 2. Addysg Cyfrwng Cymraeg

Rydym yn pryderi y bydd y cynnig hwn yn effeithio'n ddirfawr ar addysg cyfrwng Cymraeg am fod yr Awdurdod yn cynnig gosod cost a'r ddisgybl i deithio i'r ysgol os yw'n byw ychydig yn agosach na'r pellter statudol i dderbyn cludiant am ddim. Mae'n debygol y bydd y cynnig hwn yn cael effaith ariannol negyddol ar rai teuluoedd, gan y byddant yn gorfod talu am gludiant am y tro cyntaf. O ganlyniad, mi fydd rhieni'n llawer fwy tebygol o anfon eu plant i'r ddarpariaeth addysgol agosaf – sy'n debygol o fod yn ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

Noda Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (Dogfen gwybodaeth rhif: 083/2010) yn glir fod angen i bob sir

"AS1.6 Annog cynyddu mynediad i ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar a chynradd statudol cyfrwng Cymraeg yng nghymuned y plentyn."

Gan nad oes ysgol cyfrwng Cymraeg yng nghymuned pob plentyn yn Rhondda Cynon Taf mae cael trafndiaeth am ddim i fynd â'r plant i'r ddarpariaeth honno'n holl bwysig i sicrhau fod teuluoedd sy'n dymuno addysgu eu plant trwy'r Gymraeg yn cael yr un cyfle â phlant eraill.

Mi fyddai effaith gosod cost ar y cludiant hwn yn niweidiol dros ben i addysg cyfrwng Cymraeg yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Os fydd y gost yma yn ormod i deuluoedd sir Rhondda Cynon Taf mi fydd rhieni'n anfon eu plant i'r ysgol cyfrwng Saesneg lleol.

Yn ogystal efallai y bydd teuluoedd yn tynnu eu plant o ysgolion cynradd Cymraeg gan na fyddant yn medru fforddio'r gost o dalu £1.75 y dydd i'w plentyn gyrraedd yr ysgol. Mi fydd hyn yn gost o £332.50 y flwyddyn am bob plentyn i fynychu'r ysgol. Rydym yn sylwi fod cost cludiant y plant hynny sy'n derbyn cinio am ddim yn is - sef £1 y dydd. Onid yw codi cost ar deuluoedd sy'n barod yn derbyn budd-daliadau/taliadau cymorth yn afresymol? Fe ddylai plant sir Rhondda Cynon Taf gael yr un cyfle i fynychu ysgol o'i dewis heb unrhyw gost ychwanegol.

Mewn cyfnod o lymder sylweddol gwyddom fod yna bocedi niferus yn Rhondda Cynon Taf sy'n ddifreintiedig iawn yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae llawer o deuluoedd mewn sefyllfa difreintiedig gyda theuluoedd sydd naill ai'n ddi-waith neu ar gyflog isel.

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi:

*"Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn."*

Byddai UCAC yn dadlau bod y cynigion yn tanseilio cyfle cyfartal bob teulu i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, gan roi mantais amlwg i'r rheiny sydd yn byw yn ddigon agos i fedru cerdded i'r ysgol Gymraeg leol neu sy'n byw ddigon pell i deilyngu i gael cludiant am ddim.

Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg hefyd yn nodi:

*"3.6 Mae cyfle cyfartal yn thema drawsbynciol sy'n rhan annatod o'r Strategaeth hon a phob polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ni ddylai neb mewn unrhyw ran o Gymru gael ei atal rhag manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg neu ddysgu Cymraeg fel iaith .... Dylai addysg cyfrwng Cymraeg adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru yn gyffredinol, a dylai fod ar gael i bob cymuned, gan gynnwys y rhai o dan anfantais a llawn amrywiaeth ethnig, a dylent fanteisio arni. Byddwn yn disgwyl i'n partneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid gydnabod yr egwyddor hon a chymryd camau i'w gwireddu."*

Wrth gwrs mae yma hefyd oblygiadau pellgyrhaeddol i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014-2017) y sir. Mae'r Strategaeth hon yn nodi:

*"Prif Nodau ac Amcanion y Cynllun Addysg Gymraeg  
Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob plentyn os dyma yw dewis y rhiant/cynhaliwr, a hynny o fewn pellter teithio rhesymol o gartref y plentyn. Mae hyn yn golygu plant oedran cyn-ysgol ac i fyny."*

Fe nodir yn y ddogfen hon y bydd y Cyngor Sir am gynyddu'r nifer o blant 7 oed sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o'i perfformiad presennol o 20.1% (2013).

Targed ar gyfer 2014 – 2017

Canran plant 7 oed y sir a fydd yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer:

- 2014 – 21.1%
- 2015 – 21.5%
- 2016 – 21.9%
- 2017 – 23.0%

Os nad yw mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, yn hwylus ac am ddim i deuluoedd Rhondda Cynon Taf yn sicr fe fydd lefelau'r disgyblion yn yr ysgolion hynny yn disgyn, ac ni fydd gobaith gan yr Awdurdod gyrraedd ei dargedau statudol. Eto, mae yna oblygiadau pellgyrhaeddol i addysg cyfun Cymraeg yn hyn o beth gan y bydd nifer y disgyblion yn yr ysgolion yma yn lleihau. Yn y pendraw bydd llai o siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

### 3. Addysg Ôl-16 oed

Mae UCAC o'r farn nad yw'r Awdurdod wedi gwneud unrhyw fath o asesiad o'r effaith posib ar y grŵp o ddysgwyr bregus hwn.

Mae pob math o gwestiynau y byddai'n gwbl anhepgorol i'w gofyn, ac i gynnal ymchwil iddynt cyn ei bod hi'n bosib gwneud penderfyniad o blaid dileu'r cludiant am ddim yn llwyr. Er enghraifft:

Faint o bobl ifanc fyddai'n peidio parhau â'u haddysg petai'n rhaid iddynt dalu am y cludiant?

Beth fyddai'r goblygiadau – i'r bobl ifainc eu hunain, ac i'r pwrs cyhoeddus – petaent yn ymddieithrio o addysg a hyfforddiant? Faint ohonynt fyddai'n ymuno â rhengoedd niferus y NEETs yn yr Awdurdod?

A ystyriwyd cynnig cludiant am ddim i'r myfyrwyr hynny sy'n gymwys i dderbyn EMA o ganlyniad i incwm isel y teulu?

Mae'r diffyg ystyriaeth i'r mathau hyn o gwestiwn yn ategu'r farn a fynegwyd uchod bod yr Awdurdod Lleol wedi esgeuluso'i gyfrifoldeb statudol dan gymal 2(2) o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a bod sail ffeithiol a dadansoddol yr ymgynghoriad hwn yn ddiffygiol.

Fel y nodwyd uchod fod cymal 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn nodi bod yn

*"Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn."*

Ni welwn unrhyw dystiolaeth yn y ddogfen ymgynghorol bod unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i'r gofyniad statudol hwn.

Yn wir, mi allai torri cludiant am ddim gael effaith andwyol ar y dysgwyr hynny sydd am dderbyn eu haddysg ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg - ac yn wir ar y sector cyfrwng Cymraeg ei hun yn yr ardal.

Mae UCAC yn gwbl argyhoeddedig y byddai torri'r cludiant am ddim i ddarpariaeth ôl-16 yn golygu y byddai nifer sylweddol o ddisgyblion yn peidio ymgymryd â'r daith, ac yn troi at Goleg Addysg Bellach cyfagos i gael eu haddysg. Mae arolwg sydyn o brospectws a gwefannau Y Coleg Merthyr Tudful, Coleg y Cymoedd a Choleg Pen-y-bont yn dangos mai cyfleoedd prin neu rannau o gyrsiau yn unig (heblaw am gwrs TGAU a chwrs Safon Uwch yn y Gymraeg fel pwnc) sydd ar gael yn y colegau yma. Rhaid, felly, fyddai i'r dysgwyr hyn droi cefn ar addysg cyfrwng Cymraeg, a derbyn addysg cyfrwng Saesneg, yn groes i'w dymuniadau, a gan dorri ar ddilyniant ieithyddol eu haddysg.

Cwestiynwn felly sut mae'r Awdurdod yn mynd i hybu addysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg fel ag y mae'n cael ei ddatgan ym Mhrif Amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014-2017) y sir:

*"Hybu continwmm ieithyddol disgyblion a myfyrwyr o fewn y Sir o CA4 ymlaen i'w gyrfaedd dysgu gydol oes"*

Yn ogystal ni fyddai modd diffinio gweithred felly fel 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.'

Yn rhan o ymgynghoriad sy'n ystyried gwneud toriad mor niweidiol, mae UCAC yn gadarn o'r farn y dylai'r Awdurdod Lleol gynnal asesiad effaith o'r cynnig hwn ar y sector cyfrwng Cymraeg o fewn yr Awdurdod Lleol a'r ardal ehangach.

Rydym yn hyderus y byddai asesiad o'r fath yn dangos bod toriad o'r fath yn codi cwestiynau difrifol ynghylch:

- a) cynaladwyedd chweched ddsbarth yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg - a fyddai modd parhau â darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg petai'r niferoedd yn lleihau'n sylweddol?
- b) cynaladwyedd yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ei gyfanrwydd - a fyddai'r ysgol gyfan yn gynaliadwy o ran niferoedd heb chweched ddsbarth?
- c) yr effaith ar y sector cyfan - a fydd rhieni'n fodlon anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd neu uwchradd) gan wybod nad oes modd parhau â'r ddarpariaeth ôl-16?
- ch) yr effaith ar lif y myfyrwyr i Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, dan adain y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae UCAC yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud sylwadau ar y cynnig i newid gwasanaethau ac yn hyderus y byddwn yn parhau i drafod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Hyderwn y bydd y drafodaeth yn digwydd ar yr egwyddorion sylfaenol o:

- gyfathrebu clir;
- ymgynghori trwyadl.

**UCAC**  
**Gorffennaf 2015**



**UCAC**  
Undeb  
Cenedlaethol  
Athrawon  
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@athrawon.com](mailto:ucac@athrawon.com)

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

[www.athrawon.com](http://www.athrawon.com)